OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 757 (Cy. 108)

2024 No. 757 (W. 108)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

RATING AND VALUATION, WALES

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024

The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Mae Rheoliadau 2005 yn dynodi personau ac yn rhagnodi, mewn perthynas â'r personau hynny, un neu ragor o ddisgrifiadau o hereditamentau annomestig. Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn adlewyrchu enwau newydd personau dynodedig penodol, ac yn dileu'r rhai nad ydynt yn atebol mwyach am hereditamentau annomestig penodol. Mae rhifau cwmni ar gyfer pob person dynodedig wedi eu mewnosod hefyd. Yr effaith yw sicrhau bod Rheoliadau 2005 yn adlewyrchu'n gywir y personau dynodedig, a'r disgrifiadau cyfatebol o hereditamentau, ar Restr Ardrethu Ganolog Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend the Central Rating List (Wales) Regulations 2005 ("the 2005 Regulations"). The 2005 Regulations designate persons and prescribe, in relation to those persons, one or more descriptions of non-domestic hereditament. The amendments made by these Regulations reflect the change of name of certain designated persons, and remove those who are no longer liable for certain non-domestic hereditaments. Company numbers for each designated person are also inserted. The effect is to ensure the 2005 Regulations accurately reflect the designated persons and the corresponding descriptions of hereditaments on the Central Rating List for Wales.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2024 Rhif 757 (Cy. 108)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwnaed	*17 Mehefin 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*19 Mehefin 2024*
Yn dod i rym	*18 Gorffennaf 2024*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 18 Gorffennaf 2024.

Diwygio Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005

2. Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 17.

(**1**) 1988 p. 41.
(**2**) Trosglwyddwyd y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41), i'r graddau y mae'n arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, ac fe'i trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2005/422 (Cy. 40); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2005/3050, O.S. 2008/2672 (Cy. 236), O.S. 2016/645, O.S. 2019/436 (Cy. 104) ac O.S. 2019/1281 (Cy. 225).

2024 No. 757 (W. 108)

RATING AND VALUATION, WALES

The Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2024

Made	*17 June 2024*
Laid before Senedd Cymru	*19 June 2024*
Coming into force	*18 July 2024*

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988(**1**), and now vested in them(**2**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Central Rating List (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 18 July 2024.

Amendments to the Central Rating List (Wales) Regulations 2005

2. The Central Rating List (Wales) Regulations 2005(**3**) are amended in accordance with regulations 3 to 17.

(**1**) 1988 c. 41.
(**2**) The power conferred on the Secretary of State by section 53(1) of the Local Government Finance Act 1988 (c. 41), so far as exercisable in relation to Wales, was transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), and transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).
(**3**) S.I. 2005/422 (W. 40); relevant amending instruments are S.I. 2005/3050, S.I. 2008/2672 (W. 236), S.I. 2016/645, S.I. 2019/436 (W. 104) and S.I. 2019/1281 (W. 225).

3. Yn rheoliad 7(1) (hereditamentau rheilffyrdd), ar ôl "Network Rail Infrastructure Limited" mewnosoder "(registered with company number 02904587)".

4. Yn rheoliad 8 (hereditamentau cyfathrebu), ym mharagraffau (1)(a), (3) a (5)(b), yn lle "British Telecommunications plc", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "British Telecommunications Public Limited Company (registered with company number 01800000)".

5. Yn rheoliad 9 (hereditamentau nwy cenedlaethol a rhanbarthol)—

(a) ym mharagraffau (1) a (3), yn lle "Transco", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

(b) ym mharagraff (5) hepgorer ""Transco" means Transco plc and each subsidiary of National Grid Transco plc existing on 1 March 2005;" a'r "and" ar ei ôl.

6. Yn rheoliad 11 (hereditamentau mesuryddion nwy)—

(a) ym mharagraffau (1) a (3), yn lle "Transco", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

(b) hepgorer paragraff (4)(b) a'r "and" ar ei ôl.

7. Yn Rhan 1 o'r Atodlen (hereditamentau rheilffyrdd), yn y golofn gyntaf (person dynodedig), yn union ar ôl "Network Rail Infrastructure Limited" mewnosoder "(registered with company number 02904587)".

8. Yn Rhan 2 o'r Atodlen (hereditamentau cyfathrebu), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle "British Telecommunications plc" rhodder "British Telecommunications Public Limited Company (registered with company number 01800000)";

(b) hepgorer y personau dynodedig a ganlyn—

(i) "Cable and Wireless UK";

(ii) "Energis Communications Limited";

(c) yn lle "Global Crossing (UK) Telecommunications Limited" rhodder "Lumen Technologies UK Limited (registered with company number 02495998)".

9. Yn Rhan 3 o'r Atodlen (hereditamentau trawsgludo nwy cenedlaethol a rhanbarthol), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle "Transco" rhodder "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

3. In regulation 7(1) (railway hereditaments), after "Network Rail Infrastructure Limited" insert "(registered with company number 02904587)".

4. In regulation 8 (communication hereditaments), in paragraphs (1)(a), (3) and (5)(b), for "British Telecommunications plc", in each place it occurs, substitute "British Telecommunications Public Limited Company (registered with company number 01800000)".

5. In regulation 9 (national and regional gas hereditaments)—

(a) in paragraphs (1) and (3), for "Transco", in each place it occurs, substitute "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

(b) in paragraph (5) omit ""Transco" means Transco plc and each subsidiary of National Grid Transco plc existing on 1 March 2005;" and the "and" after it.

6. In regulation 11 (gas meter hereditaments)—

(a) in paragraphs (1) and (3), for "Transco", in each place it occurs, substitute "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

(b) omit paragraph (4)(b) and the "and" after it.

7. In Part 1 of the Schedule (railway hereditaments), in the first column (designated person), immediately after "Network Rail Infrastructure Limited" insert "(registered with company number 02904587)".

8. In Part 2 of the Schedule (communication hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for "British Telecommunications plc" substitute "British Telecommunications Public Limited Company (registered with company number 01800000)";

(b) omit the following designated persons—

(i) "Cable and Wireless UK";

(ii) "Energis Communications Limited";

(c) for "Global Crossing (UK) Telecommunications Limited" substitute "Lumen Technologies UK Limited (registered with company number 02495998)".

9. In Part 3 of the Schedule (national and regional gas transportation hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for "Transco" substitute "National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)";

(b) yn lle “Blackwater 2 Limited” rhodder “Wales & West Utilities Limited (registered with company number 05046791)”.

10. Yn Rhan 4 o’r Atodlen (hereditamentau trawsgludo nwy lleol), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) hepgorer y personau dynodedig a ganlyn—

(i) “British Gas Connections Limited”;

(ii) “British Gas Pipelines Limited”;

(iii) “Utility Grid Installations Limited”;

(iv) “The Gas Transportation Company Limited”;

(v) “SP Gas Limited”;

(vi) “Quadrant Pipelines Limited”;

(vii) “ESP Networks Limited”;

(viii) “ESP Pipelines Limited”;

(b) yn lle “Global Utility Connections Limited” rhodder “Last Mile Gas Limited (registered with company number SC303150)”;

(c) yn union ar ôl “Independent Pipelines Limited” mewnosoder “(registered with company number 02828692)”;

(d) yn lle “SSE Pipelines Limited” rhodder “Indigo Pipelines Limited (registered with company number 02742721)”;

(e) yn union ar ôl “GTC Pipelines Limited” mewnosoder “(registered with company number 03104203)”;

(f) yn union ar ôl “E.S. Pipelines Limited” mewnosoder “(registered with company number 03822878)”.

11. Yn Rhan 5 o’r Atodlen (hereditamentau mesuryddion nwy), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle “Transco” rhodder “National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)”;

(b) yn lle “Blackwater 2 Limited” rhodder “Wales & West Utilities Limited (registered with company number 05046791)”.

12. Yn Rhan 6 o’r Atodlen (hereditamentau trawsyrru trydan), yn y golofn gyntaf (person dynodedig), yn lle “National Grid Company plc” rhodder “National Grid Electricity Transmission plc (registered with company number 02366977)”.

(b) for “Blackwater 2 Limited” substitute “Wales & West Utilities Limited (registered with company number 05046791)”.

10. In Part 4 of the Schedule (local gas transportation hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) omit the following designated persons—

(i) “British Gas Connections Limited”;

(ii) “British Gas Pipelines Limited”;

(iii) “Utility Grid Installations Limited”;

(iv) “The Gas Transportation Company Limited”;

(v) “SP Gas Limited”;

(vi) “Quadrant Pipelines Limited”;

(vii) “ESP Networks Limited”;

(viii) “ESP Pipelines Limited”;

(b) for “Global Utility Connections Limited” substitute “Last Mile Gas Limited (registered with company number SC303150)”;

(c) immediately after “Independent Pipelines Limited” insert “(registered with company number 02828692)”;

(d) for “SSE Pipelines Limited” substitute “Indigo Pipelines Limited (registered with company number 02742721)”;

(e) immediately after “GTC Pipelines Limited” insert “(registered with company number 03104203)”;

(f) immediately after “E.S. Pipelines Limited” insert “(registered with company number 03822878)”.

11. In Part 5 of the Schedule (gas meter hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for “Transco” substitute “National Gas Transmission plc (registered with company number 02006000)”;

(b) for “Blackwater 2 Limited” substitute “Wales & West Utilities Limited (registered with company number 05046791)”.

12. In Part 6 of the Schedule (electricity transmission hereditaments), in the first column (designated person) for “National Grid Company plc” substitute “National Grid Electricity Transmission plc (registered with company number 02366977)”.

13. Yn Rhan 7 o'r Atodlen (hereditamentau dosbarthu trydan), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle "Central Networks West plc" rhodder "National Grid Electricity Distribution (West Midlands) plc (registered with company number 03600574)";

(b) yn union ar ôl "SP Manweb plc" mewnosoder "(registered with company number 02366937)";

(c) hepgorer "United Utilities Electricity plc";

(d) yn lle "Western Power Distribution (South Wales) plc" rhodder "National Grid Electricity Distribution (South Wales) plc (registered with company number 02366985)".

14. Yn Rhan 8 o'r Atodlen (hereditamentau mesuryddion trydan), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle "Central Networks West plc" rhodder "National Grid Electricity Distribution (West Midlands) plc (registered with company number 03600574)";

(b) yn union ar ôl "SP Manweb plc" mewnosoder "(registered with company number 02366937)";

(c) hepgorer "United Utilities Electricity plc";

(d) yn lle "Western Power Distribution (South Wales) plc" rhodder "National Grid Electricity Distribution (South Wales) plc (registered with company number 02366985)".

15. Yn Rhan 9 o'r Atodlen (hereditamentau cyflenwi dŵr), yn y golofn gyntaf (person dynodedig)—

(a) yn lle "Dee Valley Water plc" rhodder "Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig (registered with company number 03527628)";

(b) yn union ar ôl "Dŵr Cymru Cyfyngedig" mewnosoder "(registered with company number 02366777)";

(c) yn union ar ôl "Severn Trent Water Limited" mewnosoder "(registered with company number 02366686)";

(d) yn lle "United Utilities Water plc" rhodder "United Utilities Water Limited (registered with company number 02366678)".

16. Yn Rhan 10 o'r Atodlen (hereditamentau camlesi), yn y golofn gyntaf (person dynodedig) hepgorer "The British Waterways Board".

13. In Part 7 of the Schedule (electricity distribution hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for "Central Networks West plc" substitute "National Grid Electricity Distribution (West Midlands) plc (registered with company number 03600574)";

(b) immediately after "SP Manweb plc" insert "(registered with company number 02366937)";

(c) omit "United Utilities Electricity plc";

(d) for "Western Power Distribution (South Wales) plc" substitute "National Grid Electricity Distribution (South Wales) plc (registered with company number 02366985)".

14. In Part 8 of the Schedule (electricity meter hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for "Central Networks West plc" substitute "National Grid Electricity Distribution (West Midlands) plc (registered with company number 03600574)";

(b) immediately after "SP Manweb plc" insert "(registered with company number 02366937)";

(c) omit "United Utilities Electricity plc";

(d) for "Western Power Distribution (South Wales) plc" substitute "National Grid Electricity Distribution (South Wales) plc (registered with company number 02366985)".

15. In Part 9 of the Schedule (water supply hereditaments), in the first column (designated person)—

(a) for "Dee Valley Water plc" substitute "Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig (registered with company number 03527628)";

(b) immediately after "Dŵr Cymru Cyfyngedig" insert "(registered with company number 02366777)";

(c) immediately after "Severn Trent Water Limited" insert "(registered with company number 02366686)";

(d) for "United Utilities Water plc" substitute "United Utilities Water Limited (registered with company number 02366678)".

16. In Part 10 of the Schedule (canal hereditaments), in the first column (designated person) omit "The British Waterways Board".

17. Yn Rhan 11 o'r Atodlen (hereditamentau piblinellau pellter hir), yn y golofn gyntaf (person dynodedig), yn union ar ôl "Mainline Pipelines Limited" mewnosoder "(registered with company number 00995545)".

17. In Part 11 of the Schedule (long-distance pipeline hereditaments), in the first column (designated person), immediately after "Mainline Pipelines Limited" insert "(registered with company number 00995545)".

Rebecca Evans

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, un o Weinidogion Cymru
17 Mehefin 2024

Cabinet Secretary for Finance, Constitution and Cabinet Office, one of the Welsh Ministers
17 June 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39577-8

£8.14

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/757